DEDDFAU CWMNÏAU 1985 A 1989

CWMNI CYFYNGEDIG Â GWARANTAU A HEB GYFALAF CYFRANNAU

MEMORANDWM CYMDEITHASU

[ ]

1. Enw'r cwmni (a elwir "y gymdeithas cyd-ddeiliaid" yn y ddogfen hon) yw [ ].

2. Mae swyddfa gofrestredig y gymdeithas cyd-ddeiliaid i'w lleoli yng [Nghymru a Lloegr] [Nghymru].

3. Amcan y gymdeithas cyd-ddeiliaid yw arfer swyddogaethau cymdeithas cyd-ddeiliaid mewn cysylltiad â thir a elwir yn gyfunddaliad [ ] yn unol â datganiad cymuned gyfanddaliadol y cyfunddaliad hwnnw, fel y'i newidir o bryd i'w gilydd, ac unrhyw ddarpariaeth a wneir drwy neu yn rhinwedd Rhan 1 Deddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 a gwneud yr holl gyfryw bethau a fo'n atodol neu'n ffafriol i gyrraedd yr amcan hwnnw.

4. Mae atebolrwydd yr aelodau'n gyfyngedig.

5. Heb wneud niwed i unrhyw atebolrwydd pellach a allai fod ganddo o dan neu'n deillio o'r datganiad cymuned gyfunddaliadol, mae pob aelod o'r gymdeithas cyd-ddeiliaid yn ymgymryd i gyfrannu'r cyfryw swm y gellir ei ofyn, na fydd yn fwy na £1, at asedau'r gymdeithas cyd-ddeiliaid os caiff ei dirwyn i ben tra yw'n aelod neu o fewn un flwyddyn wedi iddo beidio â bod yn aelod, i dalu dyledion ac ymrwymiadau'r gymdeithas cyd-ddeiliaid a gafwyd cyn iddo beidio â bod yn aelod, a'r costau, y taliadau, a'r treuliau a geir o ddirwyn i ben y gymdeithas cyd-ddeiliaid, ac i setlo hawliau'r cyfranwyr ymysg ei gilydd.

Yr ydym ni, y tanysgrifwyr i'r memorandwm cymdeithasu hwn, yn dymuno cael ein ffurfio'n gwmni'n unol â'r memorandwm hwn.

Enwau a Chyfeiriadau'r tanysgrifwyr (neu danysgrifiwr)

Dyddiedig

Tyst i'r llofnodion uchod